

Patrwm cyflwyno *O fis Hydref i fis Mehefin*

O fis Chwefror i fis Medi

Disgrifiad o'r modiwl

Diben y modiwl Lefel 1 hwn yw datblygu iaith a sgiliau myfyrwyr ar gyfer cyfathrebu'n effeithiol ym myd busnes a rheoli. Bydd y deunyddiau a'r gweithgareddau yn paratoi myfyrwyr ar gyfer cyfathrebu ysgrifenedig ac ar lafar yn y brifysgol ac yn y gweithle. Ymysg pethau eraill, bydd myfyrwyr yn dysgu sut i ysgrifennu aseiniadau busnes llwyddiannus ac amrywiaeth o ddogfennau yn y gweithle; byddant yn datblygu strategaethau i ddarllen testunau cymhleth ar bynciau busnes; a byddant yn gallu rhoi cyflwyniadau effeithiol a chymryd rhan mewn trafodaethau busnes a thrafodaethau academaidd. Mae'r modiwl hwn yn defnyddio cyfuniad o destunau, deunyddiau sain, fideos a gweithgareddau rhyngweithiol ar-lein i ddatblygu eich sgiliau cyfathrebu mewn busnes.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech gael y canlynol:

- gradd gyntaf (neu gymhwyster cyfatebol) mewn disgyblaeth sy'n berthnasol i'r modiwl. Er enghraifft: ieithyddiaeth gymhwysol, neu bwnc tebyg
- cymhwyster addysgu priodol, er enghraifft CELTA/DELTA, neu TAR
- profiad diweddar o addysgu Saesneg Busnes, Saesneg at Ddibenion Academaidd, Saesneg at Ddibenion Penodol - gyda ffocws arbennig ar ddatblygu'r sgiliau hyn: gwranddo, siarad, darllen ac ysgrifennu
- gwybodaeth am arferion, materion a datblygiadau cyfredol ym maes cyfathrebu mewn busnes ac addysgu a dysgu llythrennedd academaidd ar lefel addysg bellach neu addysg uwch
- lefel uchel o ruglder yn y Saesneg
- profiad o addysgu oedolion ar lefel cyn gradd neu israddedig
- y gallu i gefnogi a hwyluso grŵp o ddysgwyr amrywiol, gan gynnwys pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol i fyfyrwyr aeddfed
- profiad o addysgu dysgwyr gyda chefnidiroedd datblygu llythrennedd academaidd amrywiol
- mynediad at gyfrifiadur sy'n cydymffurfio â'r manylebau a bennir ar y wefan cyfrifiadura personol ar gyfer LB170.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- cymhwyster ôl-raddedig mewn disgyblaeth sy'n berthnasol i'r modiwl, er enghraifft MA mewn TESOL, Ieithyddiaeth Gymhwysol neu gymhwyster cyfatebol
- profiad diweddar o weithio ym myd busnes
- cymhwyster addysgu Saesneg at Ddibenion Academaidd

Gwybodaeth ychwanegol

- mae sgiliau addysgu Saesneg iaith yn ofynnol i'r swydd hon, yn ogystal â'r gallu i roi dysgu Saesneg iaith yng nghyd-destun maes astudiaethau busnes. Byddai'r ymgeisydd delfrydol yn cyfuno profiad ac arbenigedd yn addysgu Saesneg iaith ac addysgu astudiaethau busnes, neu'n meddu ar brofiad o addysgu Saesneg at ddibenion busnes neu brofiad o addysgu Saesneg at Ddibenion Academaidd ar draws y cwricwlwm. Byddai gan yr ymgeisydd delfrydol hefyd gryn brofiad o addysgu Saesneg yn ysgrifenedig ac ar lafar.
- caiff LB170 ei gyflwyno'n electronig. Cynhelir sesiynau dysgu drwy gynadledda ar-lein; caiff aseiniadau eu cyflwyno, eu marcio a'u dychwelyd yn electronig.
- mae'r modiwl yn cynnwys un ysgol hanner diwrnod y dylai'r ymgeisydd ei mynychu a'i hwyluso yn ôl yr angen.
- byddai profiad o ddefnyddio ffurfiau electronig ar ddysgu a chymorth o bell yn ddefnyddiol, ond bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu.

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	6
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	5.5